**Cofnodion o gyfarfod o Gyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd am 7:00 y.h. Nos Fawrth, 30 Mehefin 2020 drwy Zoom.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Phil Roberts, (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Hefin Williams, Goronwy Hughes, Haf Williams, Meirwen Lloyd, Richard Robinson, Gwion Llwyd, Iola Parry, Hefin Jones, Beca Brown.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Alan Pritchard, Clifford Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd)

**Aelod o'r cyhoedd:** Mr Dafydd Whiteside Thomas

**610. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso i bawb i'r cyfarfod. Y cyfarfod cyntaf i'r cyngor ei gynnal drwy Zoom

**611. Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**612. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**613. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 17 Mawrth 2020**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**614. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Nodwyd fod rhai materion o'r cofnodion cyfarfod 17 o Fehefin 2020 ar agenda cyfarfod heno

**615. I gadarnhau cofnodion y cyfarfod blynyddol a gynhaliwyd 21 o Fai 2019**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**616. I gymeradwyo ymestyn penderfyniad cyfarfod y cyngor blynyddol ar 21 o Fai 2019 ar gyfer 2020 / 2021 yn sgil y cyfnod o argyfwng yma.**

**Penderfynwyd:** Parhau gyda'r un trefniadau ar gyfer 2020 / 2021 fel yr oedd yn 2019 / 2020. Y Cadeirydd, Is – Gadeirydd ac aelodau o'r pwyllgorau yn aros yr un fath.

**617. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Yn dilyn y penderfyniad “lockdown”, fe ohiriwyd bob cyfarfod o’r Cyngor. Erbyn hyn mae’r Cabinet yn cyfarfod yn rheolaidd ond yn rhithiol.

Mi fydd y Pwyllgor Cynllunio yn ail gychwyn dydd Iau yma hefo y cyfarfod cyntaf yn rhithiol, hefo o leiaf un cyfarfod arall ym mis Gorffennaf.

Hefyd fydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ail gychwyn diwedd mis Gorffennaf. Gyda’r gobaith y bydd y Pwyllgorau Apêl cyflogau ac Trwyddedu hefyd yn ail gychwyn. Ni fydd y Cyngor Llawn yn cyfarfod tan o leiaf mis Hydref.

Fel y gwyddoch yr adran Addysg wedi bod yn gweithio hefo’r ysgolion er mwyn i blant gael dychwelyd i’r ysgol am ychydig cyn gwyliau’r Haf. Roedd Kirsty williams y gweinidog Addysg wedi gobeithio y buasai yr ysgolion yn ychwanegu wythnos ychwanegol ar ddiwedd y tymor haf a cael pythefnos i ffwrdd yn yr Hydref. Ond ni fu yn bosibl cael cytundeb hefo’r Undebau. Penderfynodd Cyngor Sir Gwynedd i beidio agor am y bedwaredd wythnos, er fod rhai cynghorau wedi penderfynu gwneud.

**Addysg ôl 16**

Mae’r cyngor am gario ymlaen i ymgynghori ar addysg ôl 16 yn Arfon. Rwyf wedi cael addewid y bydd y cyngor yn gwerthuso y dull newydd o ddysgu ar lein sydd wedi bod yn mynd ymlaen, oherwydd o bosib bydd gwersi i ddysgu hefo sut i ddarparu addysg ôl 16, ar ôl covid-19

**Economi**

Y cyngor wedi bod yn brysur yn dosbarthu y grantiau £10mil i helpu busnesau lleol trwy’r argyfwng.

**Cwmni Byw yn Iach**

Mae’r canolfannau i gyd ar gau, rhai adeiladau o bosib yn mynd i agor i helpu y Gwasanaeth Iechyd. (e.e. bydwragedd). Llawer o’r staff ar Furlough. Rheolwr Cyfarwyddwr yn mynychu cyfarfodydd rhithiol i weld pryd fedr y gwasanaeth ail gychwyn, ond ddim arweiniad eto. Llawer o’r staff hyfforddi yn gwneud dosbarthiadau ar lein, sydd wedi bod yn boblogaidd iawn. Jamie Baulch yn ymuno yn un ac yn ateb cwestiynau ar y diwedd.

**Coronavirus**

Y cyngor wedi creu adran newydd i bob pwrpas i gefnogi cymunedau trwy'r pandemig. Llawer o weithwyr y cyngor wedi cael ei arall gyfeirio i'r gwasanaeth yma, h.y. cyfieithwyr, y tîm llywodraethu, maent i gyd yn gweithio o adref yn ateb y ffôn ac e-byst.

Os oes gan unrhyw un ymholiad ynglŷn â'r gefnogaeth ar gael i drigolion trwy y cyfnod yma, mae cyfeiriad ebost yma yn ddefnyddiol:-

CymorthcovidCaernarfon@gwynedd.llyw.cymru

Y nhw sydd yn gweinyddu y rhestr ynysu neu "shielding", fel maen siŵr eich bod wedi clywed, mae na gamgymeriadau ar y rhestr gan y llywodraeth, os da chi yn gwybod am rhywun sydd yr ydych yn meddwl fod cyflwr meddygol arnynt ac eu bod ddim yn derbyn pecyn bwyd, mae werth holi, ac os ydynt ddim ar y rhestr mae posib eu ychwanegu wrth gael llythyr Doctor – dwi wedi gwneud dau hyd yn hyn.

**Cyfarfod Ardal i drafod y Fframwaith adfywio;- h.y. Ystyrir 'adfywio' fel ymdrech fwriadol i wella ardaloedd yn economaidd, amgylcheddol neu yn gymdeithasol.**

Mae'r Prif Weithredwr yn awyddus i drafod a cheisio barn Aelodau Lleol ar hyn. Bydd yn trefnu cyfres o gyfarfodydd yn ystod mis Gorffennaf – gan wahodd Aelodau'r Cyngor o'r un ardal. Er mwyn trafod syniadau ar gyfer datblygu fframwaith adfywio; ac yn fwy i'r tymor byr, ein profiadau yn ystod Covid-19, a'r materion hynny yr ydym yn ystyried sydd angen sylw yn ein cymunedau lleol. ymlaen.

**Adeilad Ysgol Cwm y Glo**

Er gwybodaeth mae Pwyllgor y Neuadd erbyn hyn wedi gyrru llythyr i'r Cyngor yn datgan eu bod yn hapus i Menter Fachwen gymeryd yr adeilad drosodd cyn belled a bo defnydd cymunedol yn dal yn bosib..

**Torri cloddiau**

Cwynion am yr angen i dorri yn ôl coed ger y safle bws ar draws y ffordd i Dolafon, am eu fod yn anodd gweld wrth edrych i fyny am Llanrug pan eisiau croesi. Fel dwi yn deall perchennog y cae sydd yn gyfrifol am hyn, ac mae'r swyddogion wedi gofyn iddynt ei dorri.

Hefyd pan yn dod allan o Cwm y glo ochor y skatepark, anodd gweld i gyfeiriad Llanrug oherwydd gor dyfiant, y Cyngor Sir sydd yn gyfrifol am hwn ac wedi ei dorri ar ôl cael y cais.

Wedi cael ambell i gwynion ynglŷn a sbwriel, mae i weld wedi gwaethygu yn ystod y cyfnod Lockdown.

**618. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Dim adroddiad ar gael

**619. I dderbyn adroddiad gan y clerc (eisoes wedi ei gylchredeg) ynghyd a diweddariad ac i gymeradwyo penderfyniadau hyd yma a wnaethpwyd gan yn ystod y cyfnod pandemig.**

**I gymeradwyo;**

- Parhau a'r cyfrifon gwefannau cymdeithasol, sef Facebook, Twitter a Nextdoor Llanrug oddi tan yr un trefniadau presennol os ydi'r Cynghorwyr Beca Brown a Haf Williams yn fodlon parhau fel gweinyddwyr;
- Cymeradwyo gwariant ar gyfer mabwysiadu system i ddigideiddio gwybodaeth am y fynwent;
- I gymeradwyo i barhau a'r clwb ieuenctid yn mis Medi, neu prun bynnag fydd yn saff i wneud yn unol a rheolau Llywodraeth Cymru;
- I gymeradwyo ceisiadau am grant ar gyfer cynllun o warchod y cyhoedd sydd yn cael eu ystyried yn fregus yn ystod y cyfnod pandemig yma ac i awdurdodi'r clerc wneud ceisiadau fel bydd y cyfleon yn codi;
- I dderbyn adroddiad yr archwiliwr mewnol

**Penderfynwyd:** Derbyniwyd yr adroddiad gan y clerc am weithgareddau a penderfyniadau a wnaethpwyd yn ystod y cyfnod pandemig a penderfynwyd y canlynol:-

- Parhau a cyfrif Facebook y cyngor;
- Rhoi rhybudd ar dudalen Twitter yn hysbysu fod y cyngor am ei gau oherwydd mai nifer fechan oedd yn dilyn y cyngor arno;
- Parhau a cyfrif 'Nextdoor Llanrug'
- Cymeradwyo gwariant ar gyfer digideiddio'r fynwent
- Cymeradwyo parhau a'r trefniadau ar gyfer y clwb ieuenctid ar hyn o bryd;
- Awdurdodi'r clerc i wneud ceisiadau am grantiau ar gyfer cynlluniau i warchod y rhai bregus yn ein cymuned
- Derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol

**620. I gymeradwyo ffurflen flynyddol y cyngor ar gyfer 2019 / 2020 fel gellir ei anfon ar yr archwiliwr allanol.**

**Penderfynwyd:** Cymeradwywyd y ffurflen flynyddol ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**621. Agor parc sglefrio**

I benderfynu os am wneud trefniadau i agor y parc sglefrio ac i ystyried pa gamau i'w cymryd wrth agor yr offer chwarae pan fydd amgylchiadau yn caniatáu**.**

Adroddwyd fod Llywodraeth Cymru bellach yn llacio rheolau ar gyfer defnydd o barciau sglefrio ac eu bod yn awr ar agor. Mae hyn yn wahanol i offer sydd ar y meysydd chwarae oherwydd mae rheini yn parhau ar gau. Adroddwyd gan y clerc ei fod yn rhesymol i'r cyngor baratoi rhybuddion i'w rhoi fyny yn y parc yn atgoffa defnyddwyr am y rheolau cadw pellter cymdeithasol, y pwysigrwydd i olchi dwylo a defnyddio hylif di-heintio.

**Penderfynwyd:** Y clerc i drefnu rhoi arwyddion i fyny yn hysbysu y pwysigrwydd o gydymffurfio a rheolau Llywodraeth Cymru ar y parc sglefrio

**622. I greu holiadur i geisio barn y rhai sydd yn cael cinio dydd Sul ar y cynllun**

Adroddwyd gan y clerc ei fod yn bwysig ein bod yn cael adborth gan y rhai sydd yn derbyn cinio dydd Sul am y cynllun. Er ein bod yn ymwybodol yn ôl y diolchiadau sydd wedi dod ar lafar ac yn ysgrifenedig ond bydd angen tystiolaeth gadarn gan rhan fwyaf o'r derbynwyr. Mae nifer o ffurflenni ceisiadau am grant yn gofyn am fesurau sut byddwn yn mesur llwyddiant y prosiect.

**Penderfynwyd:** Creu holiadur ar gyfer ei dosbarthu i dderbynwyr cinio dydd Sul gyda'r bwriad o'i adael gyda nhw un wythnos a'i gasglu yr wythnos ddilynol.

Cyn gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod am yr eitem nesaf, cafodd Mr D Whiteside-Thomas gyfle i holi neu i roi unrhyw sylwadau ar beth roedd wedi glywed yn ystod y cyfarfod.

Diolchodd i'r clerc, i'r cyngor ac i'r gwirfoddolwyr roedd yn trefnu dosbarthu'r cinio a'r nwyddau yn y cyfnod yma.

**Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 Adran 1 (2) yn nodi "Caiff corff, trwy benderfyniad, wahardd y cyhoedd o gyfarfod (p'un ai yn ystod yr achos cyfan neu ran ohono) pryd bynnag y byddai cyhoeddusrwydd yn niweidiol i fudd y cyhoedd oherwydd natur gyfrinachol y busnes i gael ei drafod neu am resymau arbennig eraill a nodwyd yn y penderfyniad ac sy'n deillio o natur y busnes hwnnw neu'r achos; a phan fydd penderfyniad o'r fath yn cael ei basio, ni fydd y Ddeddf**

**hon yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfarfod bod yn agored i'r cyhoedd yn ystod achos y mae'r penderfyniad yn berthnasol iddo. "**

**623**. Argymhellir fod y Cynghorwyr Berwyn Parry Jones a Charles Jones os yn bresennol yn aros yn y cyfarfod.

**Penderfynwyd:** I'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones aros yn y cyfarfod.

**624**. Bydd y cyngor yn ymwybodol o'r cynllun cinio a'r adborth sydd wedi dderbyn o'r gymuned.

Mae nifer helaeth o'r rhai sydd yn derbyn i cinio wedi mynegi eu dymuniad i gyfrannu tuag at y cyngor, am y gwasanaeth neu tuag at unrhyw elusen arall.
Ar hyn o bryd mae'r cyngor wedi gwrthod derbyn unrhyw gyfraniad. Fodd bynnag fe ddylai'r cyngor benderfynu ar beth i'w wneud yn y sefyllfa. Y dewis yw

a) Peidio derbyn unrhyw gyfraniad ariannol;
b) Ymgysylltu a cwmni arlwyo A & M i holi beth yw ei dymuniad;
c) Unrhyw dderbyniadau yn mynd i A & M;
d) Y Cyngor i benderfynu ar elusen

**Penderfynwyd:** Opsiwn a, peidio a derbyn unrhyw gyfraniad ariannol gan neb.

**Arwyddwyd:**

**Cadeirydd:** **Dyddiad:**